# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES

**(Via Microsoft Teams)**

**<u>Aelodau sy'n Bresennol:</u>** **<u>Dydd Iau, 13 Mai 2021</u>**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd C.Galsworthy** |
| **Cynghorwyr**: | J.Miller, S.Paddison, S.H.Reynolds, D.Whitelock, A.N.Woolcock, C.Edwards, W.F.Griffiths, H.C.Clarke a/ac N.J.E.Davies |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Jarrett, A.Thomas, K.Warren, J.Hodges, R Davies, T.Davies, K.Gillings, L.Batchelor a/ac H.Sinclair |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr A.R.Lockyer a/ac P.D.Richards |

---

## 1. <u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>

Caiff cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2021 eu cymeradwyo yn amodol ar y diwygiad canlynol:-

- Nodwyd nad oedd y geiriau "Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad." yn eitem 6 y cofnodion, dan y teitl 'Adroddiad ynghylch y Diweddaraf am Dai a Digartrefedd' yn darparu adlewyrchiad cywir o'r drafodaeth. Nodwyd y gofynnwyd i'r swyddogion ystyried dod â thai gwag i berchnogaeth y cyngor gyda'r posibilrwydd o'u hadnewyddu a'u defnyddio fel tai i'r rheini sy'n ddigartref. Yn ogystal â chyflwyno Cyfrif Refeniw Tai at y diben hwn. Cytunodd yr aelodau fod hwn yn adlewyrchiad cywir o'r drafodaeth a chytunwyd newid y geiriad i adlewyrchu hyn.

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith, yn dilyn y cyfarfod blaenorol, fod cydweithwyr TG yn unioni'r pryderon hygyrchedd sy'n ymwneud â'r ymgynghoriadau ar wefan Castell-nedd Port Talbot. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod 10 lle hyfforddi wedi'u sicrhau i swyddogion gael

rhagor o wybodaeth am ddogfennau hawdd eu darllen. Nododd yr Aelodau'r diweddariad hwn.

- **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Dewisodd y pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Polisi Codi Tâl am Ofal Preswyl a Dibreswyl

Yn dilyn cais gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai, cytunwyd y dylid dileu'r eitem hon o gyfarfod heddiw er mwyn cysoni'r polisi'n agosach â deddfwriaeth a'i gyflwyno yng nghyfarfod yn y dyfodol.

Pecyn Cyd-gynhyrchu Rhanbarthol ar gyfer y Bartneriaeth Ranbarthol

Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ynghylch y Pecyn Cyd-gynhyrchu Rhanbarthol ar gyfer y Bartneriaeth Ranbarthol, a oedd yn cynnwys Fframwaith Cydgynhyrchu, Pecyn Cymorth Cydgynhyrchu a Siarter Cydgynhyrchu fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd Cyfarwyddwr CGG CNPT, Gaynor Richards, Mark Davies, Dinesydd Castell-nedd Port Talbot a Kelly Gillings, Cyfarwyddwr Rhaglen Drawsnewid Gorllewin Morgannwg, yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad ar y cyd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai.

Yn dilyn y cyflwyniad, canmolodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau i Oedolion ac Iechyd y ddogfen.

Gofynnodd Aelodau Craffu pa wahaniaeth weledol fyddai yn dilyn rhoi'r fframwaith ar waith. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith, yn dilyn twf y fframwaith hwn, y byddai gan graffu fewnwelediad i'r cynlluniau a'r strategaethau wrth symud ymlaen, gyda golwg ehangach ar gynllunio gan aelodau'r cyhoedd, defnyddwyr y gwasanaeth a theuluoedd.

Gofynnodd aelodau am nifer y dinasyddion a oedd yn ymwneud â'r grŵp gan fod nifer isel o ddilynwyr ar y llwyfan cyfryngau cymdeithasol. Nodwyd, yn dilyn y pandemig, nad oedd y niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol, fodd bynnag, gyda gwaith ymgysylltu pellach yn y dyfodol byddai hynny'n cynyddu nifer y dilynwyr.

Trwy gydol y drafodaeth roedd pwyslais ar bwysigrwydd cael nifer o ddinasyddion yn rhan o’r grŵp i sicrhau bod amrywiaeth eang o syniadau'n cael eu hystyried.

Cynhaliwyd trafodaeth hefyd ynghylch cynnwys Cynghorau Iechyd Cymunedol yn y dyfodol.

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y bwlch a oedd ar hyn o bryd yn ein trefniadau llywodraethu rhanbarthol fel y nodir yn yr adroddiad. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod gwaith yn cael ei wneud ar y bwlch hwn ar hyn o bryd. Roedd mewn perthynas â'r broses werthuso a sicrhau bod gwerthusiadau'n cael eu gwneud drwy broses cydgynhyrchu ac nid fel sefydliadau gwahanol.

Cynigwyd gwahoddiad agored i aelodau fod yn bresennol mewn grŵp cydgynhyrchu i gael rhagor o wybodaeth os oedd angen.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch strwythur adrodd y strategaeth ar gyfer y dyfodol. Nodwyd y byddai adroddiad yn cael ei ailgyflwyno mewn 6 mis i ddarparu diweddariad pellach ar gynnydd y fframwaith hwn. Caiff adroddiadau pellach eu darparu i'r pwyllgor yn ôl yr angen.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

<u>Rhaglen Grant Cyfalaf Tai Llywodraeth Cymru</u>

Rhoddwyd gwybod i aelodau am Alldro Cynllun Datblygu Rhaglen Grant Cyfalaf
Tai Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019/20 a
2020/21. Ar y cyd â'r gwariant arfaethedig a drefnwyd ar gyfer 2021/22-2024/25, fel y nodwyd yn yr adroddiad a dosbarthwyd.

Gofynnodd aelodau am adeilad *County Flats.* Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn ddatblygiad Tai Tarian o'r enw *County Flats.*

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch monitro'r gwaith adnewyddu. Nodwyd bod y gwaith adnewyddu'n cael ei wneud gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Byddai penseiri, arolygwyr a thimau dylunio proffesiynol hefyd yn rhan o'r broses i sicrhau eu bod yn glynu at safon uchel.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

Strategaeth bum mlynedd Gofalwyr Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg

Cyflwynwyd diweddariad i aelodau ar Strategaeth Bum Mlynedd Gofalwyr Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd Cyfarwyddwr CGG CNPT yn bresennol a darparodd gyflwyniad byr i'r adroddiad.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch y goblygiadau cost y mae gofalwyr di-dâl yn eu hwynebu wrth iddynt geisio defnyddio mathau o gludiant. Tynnodd Cyfarwyddwr CGG CNPT sylw at y ffaith byddai'r sector gwirfoddol yn trafod ffyrdd o ystyried dewisiadau i helpu i weithio gyda gofalwyr di-dâl.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

3. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nododd aelodau'r Blaenraglen Waith a chawsant wybod bod sesiwn Blaenraglen Waith wedi'i threfnu ar gyfer 27 Mai, 2021, i drafod a chwblau eitemau pellach ar gyfer cylch 2021/22.

4. **BLAENRAGLEN WAITH BWRDD GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES Y CABINET (WEDI'I CHYNNWYS YM MHAPURAU BWRDD Y CABINET)**

Nodwyd Blaenraglen Waith Bwrdd Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles y Cabinet.

**CADEIRYDD**